gwreiddiau ifanc

A oes gennych chi syniad am sut i gynnwys pobl ifanc yn eu treftadaeth?

MAE GWREIDDIAU IFANC yn cynnig grantiau o rhwng £5,000 a £25,000. Nod y cynllun yw cael pobl ifanc o 13-20 oed (hyd at 25 i'r rheiny ag anghenion arbennig) i ddysgu am eu treftadaeth, datblygu sgiliau, magu hyder a hybu cyfranogiad yn y gymdeithas.

Mae prosiectau Gwreiddiau Ifanc yn deillio'n uniongyrchol o ddiddordebau a syniadau pobl ifanc, yn harneisio eu creadigrwydd a'u hegni a'u helpu i weithio gydag eraill yn eu cymuned.

Os ydych chi'n meddwl y gallwch chi annog pobl ifanc i feddwl am eu treftadaeth, a'i ymchwilio, gallai rhaglen Gwreiddiau Ifanc eich helpu. Darllenwch drwy'r cwestiynau ar dros y dudalen. Os mai ie yw eich ateb i'r rhan fwyaf neu i bob un o'r cwestiynau, llenwch ffurflen cyn-gais a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod. Neu, cysylltwch â ni ar y ffôn neu ar yr e-bost am fwy o fanylion.

Edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau am brosiect Gwreiddiau Ifanc yn eich ardal chi.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru
Tŷ Hodge, Plas y Neuadd
Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: 029 2034 3413
Ffacs: 029 2034 3427
We: www.hlf.org.uk

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

A yw cynllun grantiau Gwreiddiau Ifanc yn iawn i chi?

1. A fydd eich prosiect yn cynnwys pobl ifanc rhwng 13 ac 20 oed (neu 13 i 25 i bobl ifanc ag anghenion arbennig?)

Bwriedir y rhaglen hon ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc 13 i 20 oed (neu 13 i 25 i bobl ifanc ag anghenion arbennig).

Rhaid i'ch prosiect ddangos sut y mae pobl ifanc yn rheoli ac yn cymryd rhan yn y prosiect.

2. A yw eich prosiect yn gysylltiedig â threftadaeth amrywiol y DU?

Mae angen i'ch prosiect fod yn gysylltiedig â threftadaeth leol ac amrywiol ddiwylliannol y DU. Er enghraifft, gallai ymwneud â phobl ifanc yn ymchwilio i archif leol neu wneud gwaith achos ymarferol ar warchodfa natur.

3. A gaiff y prosiect ei gyflwyno drwy bartneriaeth?

Bydd angen i chi allu dangos bod eich prosiect yn cael ei gyflwyno drwy bartneriaeth. Rhaid i grwpiau ieuenctid weithio gydag o leiaf un partner treftadaeth i gyflwyno'r prosiect, (e.e. yr ymddiriedolaeth bywyd gwyllt leol neu amgueddfa leol).

4. A yw eich cais am grant rhwng £5,000 a £25,000?

Nid ydym yn rhoi grantiau o lai na £5,000 na mwy na £25,000 o dan y rhaglen hon.

Sylwer na ddylai eich prosiect cyfan gostio mwy na £50,000.

5. A fydd eich prosiect yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am dreftadaeth?

Dylai prosiectau gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i ddysgu mwy am eu treftadaeth eu hunain neu dreftadaeth pobl eraill.

Mae arnom eisiau annog prosiectau a fydd yn helpu pobl ifanc i fwynhau a datblygu eu barn eu hunain am dreftadaeth.

6. A yw eich prosiect yn hyrwyddo cyfranogiad mewn treftadaeth i ystod eang o bobl ifanc, yn enwedig y rheiny nad ydynt wedi ymwneud â threftadaeth o'r blaen?

Dylai prosiectau hybu cynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal dryw gynnwys ystod eang o bobl ifanc o wahanol alluoedd ac o wahanol gefndiroedd diwylliannol.

Mae arnom eisiau hyrwyddo gwerthfawrogiad o werth treftadaeth i'r gynulleidfa ehangaf posibl.

7. A fydd y prosiect yn parhau am hyd at 18 mis?

Am brosiectau sy'n parhau'n fwy na 18 mis, dylech wneud cais drwy ein rhaglenni grant eraill.

Gallai eich prosiect dderbyn grant a dylech lenwi ffurflen cyn-gais nawr.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Prif swyddfa
7 Holbein Place
Llundain SW1W 8NR
www.hlf.org.uk
Ffôn: 020 7591 6000
Ffacs: 020 7591 6001

Gogledd Iwerddon
51-53 Adelaide Street
Belfast
BT2 8FE
Ffôn: 028 9031 0120
Ffacs: 028 9031 0121

Yr Alban
28 Thistle Street
Caeredin
EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 9450
Ffacs: 0131 225 9454

Cymru
Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: 029 2034 3413
Ffacs: 029 2034 3427